Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Is-adran Amgueddfeydd, Celfyddydau, Archifau a Llyfrgelloedd (MAALD)
# **Grantiau Her Cyfuno 2020-21**
## Gwybodaeth i Ymgeiswyr

## 1. Cyflwyniad

Yn dilyn tair mlynedd llwyddianus Grantiau Her Fusion 2017-20, mae MAALD yn parhau ymasiad drwy ymestyn y rhaglen am flwyddyn gyda'r opsiwn i un arall. Croesewir ceisiadau am hyd at £25k y flwyddyn, hyd at flwyddyn ac un, dros ddwy flynedd, gan gyrff arweiniol i gyflwyno prosiectau diwylliannol strategol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, grymuso, blynyddoedd cynnar a dysgu fel teulu, ac iechyd a lles.

Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion ynghylch cefndir y Rhaglen Cytuno a'r cynllun grantiau Her

Mae Cyfuno yn cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru ac mae'n cwmpasu **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.** Trwy gymryd rhan yn y rhaglen Cyfuno gall sefydliadau cyhoeddus anelu at gyflawni nodau'r Ddeddf. Mae'r rhaglen Cyfuno yn galluogi'r sector diwylliant i gyfrannu at amcanion **Symud Cymru Ymlaen 2016–2021** ac yn galluogi'r sector hwn a sefydliadau cyhoeddus i gyfrannu at y strategaeth genedlaethol **Ffyniant i Bawb.** Mae **Golau yn y Gwyll** yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant yng Nghymru. Mae'n egluro sut y gall diwylliant, drwy’r rhaglen Cyfuno, rymuso pobl a datblygu hyder, sgiliau a chyflogadwyedd.

Mae'r rhaglen Cyfuno yn parhau i ganolbwyntio ar **ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd**. Yn ystod y cyfnod peilot, gweithiodd Ardaloedd Arloesi o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn unig. Yn 2020-21, gall ymgeiswyr benderfynu pa gymunedau y maent yn cydweithio â nhw, ond rhaid iddynt ddangos sut maent wedi nodi a thargedu cynulleidfaoedd â blaenoriaeth yn eu hardal(oedd) awdurdod lleol, er enghraifft drwy ddefnyddio'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (WIMD).

Rhaid i ymgeiswyr lenwi Cynllun Gweithgarwch a Ffurflen Gais. Rhaid i berfformiad ganolbwyntio ar gyflawni set o **ddangosyddion Cyfuno (Atodiad 1)**, sef y brif ffordd o fonitro effaith y rhaglen.

## 2. Pwy all wneud cais am gyllid?

**Croesewir ceisiadau gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.**

Dylai ymgeiswyr fod yn **awdurdodau lleol, neu gyrff diwylliannol sy'n cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol neu sydd â chysylltiadau cryf â nhw** (megis drwy bartneriaeth ffurfiol neu drefniant ariannu).

Mewn rhai ardaloedd, gellir ystyried asiantaethau cymunedol eraill, yn arbennig landlordiaid cymdeithasol cofrestredig / cymdeithasau tai, yn gyrff arweiniol. Rhaid iddynt allu dangos sut y byddant yn gallu datblygu partneriaeth gref â chyrff diwylliannol lleol, er enghraifft drwy ddangos eu bod wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

Dylai ymgeiswyr y tu allan i awdurdod lleol gynnwys llythyr o gefnogaeth oddi wrth yr awdurdod(au) lleol perthnasol ar gyfer eu hardal.

### 3. Faint fyddwn yn ei ariannu?

Caiff ceisiadau o hyd at £25,000 y flwyddyn, gyda phosibilrwydd blwyddyn ychwanegol, eu croesawu. Mae hon yn rhaglen grant gystadleuol ac mae disgwyl i'r galw am gyllid fod yn uchel. Os bydd y galw am brosiectau sy'n bodloni'r meini prawf yn fwy na'r cyllid sydd ar gael, efallai y bydd angen i ni drafod y prosiectau ymhellach gydag ymgeiswyr.

Byddwn yn croesawu'n arbennig geisiadau sy'n dangos parodrwydd i ddenu cyllid yn allanol am brosiectau. Disgwylir i ymgeiswyr dalu o leiaf 10% o gyfanswm y costau fel arian cyfatebol ychwanegol tuag at eu prosiect. Bydd canran uwch o arian cyfatebol gan yr ymgeisydd yn cael ei hystyried yn gadarnhaol fel rhan o'r broses asesu. **Rydym yn croesawu'n arbennig gynigion sy'n cwmpasu mwy nag un ardal awdurdod lleol.**

Dylid cyflwyno ceisiadau ariannol ar gyfer 2020-21 erbyn **15 Chwefror 2021.** Bydd ariannu gweithgarwch yn 2020-21, lle mae'n rhan o gynigion dwy flynedd, yn amodol ar berfformiad boddhaol yn 2020-21 ac argaeledd cyllidebau yn y dyfodol.

### 4. Beth fyddwn yn ei ariannu?

Bydd angen i gyrff arweiniol ddatblygu cynigion sy'n adlewyrchu'r canllawiau a'r meini prawf a geir yn y ddogfen hon. Bydd angen i gynigion ganolbwyntio ar gyflawni gweithgareddau sy'n bodloni dangosyddion perfformiad Cyfuno. Rhaid i ymgeiswyr hefyd gyfleu sut y byddant yn:

- cydgysylltu blaenoriaethau a rhaglenni gweithgarwch
- galw rhwydweithiau lleol ynghyd a'u datblygu
- cyswllt â phartneriaid lleol a sefydliadau eraill
- nodi anghenion hyfforddi ac anghenion eraill
- gweithredu gweithdrefnau monitro a gwerthuso cysonsicrhau cyllid allanol
- hyrwyddo Cyfuno a'ch llwyddiant

Disgwylir i grantiau fynd i'r afael â'r angen i greu capasiti, er enghraifft **cyfrannu at gostau swyddi cydgysylltu lleol**. Mae costau i gefnogi gweithgarwch lleol, er enghraifft hyfforddiant i bartneriaid, yn briodol hefyd. Nid ydym yn rhagweld ariannu prosiectau diwylliannol partneriaid lleol yn uniongyrchol; disgwylir i bartneriaid gyfrannu eu hadnoddau tuag at raglenni lleol.

Dylai gweithgareddau gynnwys:

- gweithio'n agos gyda rhaglenni blynyddoedd cynnar megis Dechrau'n Deg
- gweithio'n agos gyda rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd e.e. Cymunedau am Waith ac Esgyn, ac asiantaethau gwirfoddoli, i nodi a chefnogi unigolion â chyfleoedd strwythuredig
- rhaglenni grymuso pobl ifanc megis Diwrnod Meddiannu, Hyrwyddwyr Ifanc ac eraill
- hyfforddiant ac achrediad digidol drwy Gasgliad y Werin Cymru

Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu amserlen ar gyfer y flwyddyn. Gall hyn fod yn ddangosol, ond dylai gynnwys y camau canlynol: trafodaethau anffurfiol gyda phartneriaid ac o fewn y corff arweiniol, recriwtio swyddi cydgysylltu, sefydlu partneriaeth Cyfuno yn ffurfiol, cytuno ar ganlyniadau a gweithgareddau, cyflawni gweithgareddau, a gwerthuso parhaus. Rydym yn cydnabod y bydd ymgeiswyr sydd eisoes wedi cymryd rhan yng nghynllun grantiau Her Cyfuno eisoes wedi cyflawni cynnydd o ran y camau hyn.

Gallai costau cymwys gynnwys costau staff, offer, ac mewn rhai achosion cyllideb fach ar gyfer costau'r prosiect megis achredu a hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw rhai costau'n gymwys:

- adnewyddu neu brynu offer a dodrefn swyddfa sylfaenol
- costau rhedeg cyffredinol partneriaid
- prynu neu brydlesu eiddo, safle neu gerbydau
- cyflogi staff i gynnal gwaith a gweithgareddau sy'n rhan o broses rheoli gwasanaeth arferol y partneriaid sy'n cynnal y prosiect

Disgwyliwn i bob **corff arweiniol** ddarparu dadansoddiad o wariant a manylion sefydliadau sydd wedi cael eu hariannu cyn i gais gael ei dalu. Efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth ategol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyllid i'r corff arweiniol, a fydd wedyn yn gwneud trefniadau i dalu partneriaid neu gyflenwyr fel sy'n gymwys.

## 5. Meini prawf

Rhaid i bob prosiect fodloni'r meini prawf canlynol:

- gweithgarwch i gyflawni dangosyddion Cyfuno yn Atodiad 1. Rhaid i geisiadau gynnwys gweithgareddau i gyflawni dangosyddion C1, C2, C3 a C7 o leiaf
- tystiolaeth o sut mae ymgeiswyr wedi defnyddio'r WIMD diweddaraf i dargedu gwasanaethau at y rheini â'r angen mwyaf
- partneriaeth gref o ddarparwyr diwylliannol (awdurdod lleol, y trydydd sector, a chyrff cenedlaethol), asiantaethau cymunedol (gan gynnwys asiantaethau gwirfoddoli a chymdeithasau tai) a chyrff eraill
- cydgysylltu rhwydweithio, digwyddiadau, hyfforddiant, gwerthuso ac adrodd ar ran y bartneriaeth gan y partner arweiniol
- tystiolaeth o ymgynghori â defnyddwyr a'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaethau
- darparu gwerth am arian

## 6. Amserlen

Mae'r amserlen ar gyfer 2020-21 fel a ganlyn:

- y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r rhaglen hon yw **14 Chwefror 2020**
- asesir ceisiadau yn ystod **mis Chwefror 2020**
- efallai y cynhelir trafodaeth bellach ag ymgeiswyr os oes angen
- caiff ymgeiswyr eu hysbysu o'r canlyniad erbyn diwedd **mis Mawrth 2020** a cheir cyhoeddiadau yn **gynnar ym mis Ebrill**
- dylai cyrff arweiniol gyflwyno rhagolwg ariannol erbyn **mis 16 Hydref 2020**
- dylai ceisiadau ariannol gyrraedd MAALD erbyn **15 Chwefror 2021**. Pan fo costau'n cynnwys cyflogau, caiff ymgeiswyr wneud cais ymlaen llaw am y cyfnod rhwng **15 Chwefror 2021** a **31 Mawrth 2021**

- dylai gwaith a ariennir gan grant yn 2020-21 gael ei gwblhau erbyn **31 Mawrth 2021**

**7. Llenwi'r Ffurflen Gais a'r Cynllun Gweithgarwch**

- Dylai Pennaeth y sefydliad neu'r adran lofnodi cyflwyniadau
- Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod y costau a ddyfynnir yn gystadleuol a'u bod yn cydymffurfio â gweithdrefnau caffael a recriwtio a chanllawiau ariannol y sefydliad. Dylid darparu un amcanbris cystadleuol o leiaf
- Dylid cwblhau Cynllun Gweithgarwch fel rhan o'r cais, a chynnwys dangosyddion a thargedau perfformiad ynddo, a fydd wedyn yn cael eu hamlinellu yn y Ffurflen Benderfyniad ar gyfer cytundeb derbynnydd y grant
- Gellir anfon gwybodaeth ategol ychwanegol os yw'n briodol a'i marcio'n glir â 'Grantiau Strategol Cyfuno', enw'r ymgeisydd a'r dyddiad
- Caiff cyflwyniadau eu dychwelyd os na ddarperir yr holl wybodaeth berthnasol, gan achosi oedi o ganlyniad i hynny
- Dylid nodi ar geisiadau sut mae cydraddoldeb ac anghenion o ran y Gymraeg wedi cael eu hystyried (gan gyfeirio at bolisïau sefydliadol priodol lle bo'n berthnasol). Dylid cynhyrchu'r holl ddeunydd hyrwyddo ac arddangosiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg

**8. Monitro, gwerthuso ac arfer gorau**

Bydd cyrff arweiniol yn gyfrifol am gasglu data monitro a gwerthuso ac adrodd ar gyfranogiad a pherfformiad, a bydd angen iddynt ddatblygu systemau cadarn. Disgwylir i gyrff arweiniol adrodd yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i bob corff arweiniol ymrwymo i gymryd rhan mewn gweithdai Cyfuno neu cyfarfod rhwydweithio (3-4 y flwyddyn). Bydd y gweithdai hyn yn cynnig cyfle i rannu arfer gorau a phrofiadau â meysydd eraill, partneriaid eraill a'r tîm Cyfuno. Caiff canllawiau pellach ar dechnegau effeithiol ac adnoddau i fonitro a gwerthuso eu datblygu gyda phartneriaid fel rhan o'r rhaglen.

**9. Cyfathrebu**

Rhaid i'r ymgeisydd gydnabod Llywodraeth Cymru mewn unrhyw weithgarwch cyfathrebu neu weithgarwch prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Dylai hyn gyfeirio at y rhaglen Cyfuno. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn yn cael ei chynnwys yn y llythyr penderfyniad. Dylai'r ymgeisydd roi gwybod ym mha iaith yr hoffai gyfathrebu â ni.

**10. Cyngor ac asesu**

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth ar yr ymgeisydd dylai gysylltu â Gary Williams, Llywodraeth Cymru, ar gary.williams2@***llyw.cymru*** neu 0300 062 5548 neu ***Cyfuno-fusion@llyw.cymru*** .

Dylai'r ceisiadau **gyrraedd erbyn 12:00 14 Chwefror 2020 fan bellaf** a chael eu hanfon i: ***Cyfuno-Fusion@llyw.cymru a/neu Rhaglen Cyfuno, MAALD, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR.***

Caiff pob cyflwyniad ei ddarllen yn fanwl a'i asesu yn erbyn y gofynion a'r meini prawf a amlinellir yn Adrannau 4 a 5, a bydd y broses yn ystyried y canlynol:

- cyflawnrwydd y ffurflen gais
- cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol
- hanes o lwyddo wrth reoli prosiectau

Ni fydd MAALD yn cadarnhau cynigion o gymorth ariannol ar gyfer prosiectau o dan y rhaglen hon yn yr achosion hynny lle mae angen i'r ymgeisydd roi gwybod yn ffurfiol o hyd am brosiect neu brosiectau Cyfuno blaenorol.

# Atodiad 1: Fframwaith Mesur Perfformiad Cyfuno

| Mesur Perfformiad | Diffiniad | Enghreifftiau o ganlyniad cefnogi gweithgarwch diwylliannol |
|---|---|---|
| **C1 Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu** | Cyfranogwyr yn bresennol mewn gweithgareddau diwylliannol **strwythuredig** sy'n hyrwyddo dysgu a datblygu o enedigaeth hyd at oedran ysgol. Darparwyd gydag amrywiol bartneriaid cymunedol ac eraill, gan gynnwys darparwyr gofal plant, rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, ac ysgolion. Caiff y canlyniadau eu datblygu er budd plant yn ogystal â rhieni/gofalwyr. | • Cynlluniau i annog rhieni a gofalwyr i fod yn fwy parod i ddarllen / cynnal gweithgarwch diwylliannol gyda phlant<br>• Defnyddio gweithgarwch diwylliannol fel rhan o'r pecyn Family Learning Signature<br>• Sesiynau dysgu teuluoedd penodol mewn lleoliadau diwylliannol<br>• Sefydliadau diwylliannol yn darparu gweithgareddau dysgu teuluoedd mewn lleoliadau cymunedol |
| **C2 Ennill cymhwyster** | Mae'r cleient yn derbyn cymhwyster cydnabyddedig sydd â'r bwriad o ddatblygu cyflogadwyedd y cleient. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau CQFW a gwobrwyon cysylltiedig e.e. Unedau Agored, NOCN. | Trwy gyfranogiad wedi'i drefnu gan gorff diwylliannol, mae'r cleient yn derbyn achrediad/cymhwyster cydnabyddedig. Gall gynnwys Gwobr Gelfyddydol Efydd, Arian ac Aur ac unedau megis Agored, OCN ac eraill. |
| **C3 Gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr i waith** | Mae'r cleient yn gwirfoddoli o fewn lleoliad diwylliannol neu ran o gorff diwylliannol neu dreftadaeth yn rheolaidd. Mae hyn yn ddelfrydol, ond nid yn unig, yn lwybr at waith. | • Mae corff diwylliannol yn rhoi cyfle i gleientiaid wirfoddoli, ac yn gweithio gyda rhaglenni cefnogi cyflogaeth, asiantaethau cymunedol a phartneriaid eraill i ddod o hyd i unigolion addas ac i'w cefnogi.<br>• Mae cyrff diwylliannol yn gwobrwyo gwirfoddoli er enghraifft drwy fentrau cofnodi amser a hefyd yn cydnabod credydau cofnodi fel taliadau. |
| **C4 Cwblhau profiad gwaith** | Mae'r cleient yn cwblhau profiad gwaith o fewn lleoliad diwylliannol ac/neu fel rhan o gorff diwylliannol neu dreftadaeth am gyfnod penodol. Mae'n rhaid i gleientiaid fod yn bresennol am o leiaf 75% o'r amser. | Gwaith gyda corff diwylliannol gyda rhaglenni cynnal cyflogadwyedd neu raglenni cyfeirio eraill i ganfod cyfranogwyr a darparu lleoliadau gwaith. |
| **C5 Sgiliau digidol gwell** | Mae cleientiaid wedi'u cefnogi i ddatblygu eu sgiliau digidol. | • Hyfforddiant TGCh achrededig, cydnabyddedig (yn bennaf drwy lyfrgelloedd cyhoeddus)<br>• Cyfrannu at raglenni treftadaeth ddigidol achrededig neu strwythuredig (e.e. Casgliad y Werin Cymru)<br>• Cymryd rhan mewn prosiect diwylliannol â'r prif **ffocws** i wella sgiliau digidol |

| | | |
|---|---|---|
| **C6 Agwedd well tuag at ddysgu'n ffurfiol** | Mae'r cleient yn dangos gwelliant **mesuradwy** yn eu hymagwedd tuag at ddysgu ffurfiol, a'u cyrhaeddiad posibl, drwy eu cysylltiad â diwylliant. Dylid darparu tystiolaeth gan yr ysgol neu'r asiantaeth yn hytrach na hunan-gofnodi. | Cyrff diwylliannol yn cydweithio gydag ysgolion ac asiantaethau cymunedol a chyrff eraill (e.e. unedau cyfeirio) i gynnig gweithgareddau strwythuredig sy'n cefnogi pobl ifanc i wella eu hysgogiad, eu hyder a'u sgiliau ac i arwain at wella ymagwedd at ddysgu. Byddai'n bosibl cynnig tystiolaeth a chofnodi perfformiad academaidd gwell mewn rhai achosion. |
| **C7 Y gallu i reoli eu lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well** | Cleientiaid yn cofnodi strategaethau rheoli gwell ar gyfer eu lles meddyliol ac/neu yn derbyn cymorth i helpu iddynt wella eu iechyd corfforol, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth ble mae'r prif ffocws ar wella eu iechyd a'u lles. | • Cynlluniau cyfeirio/argymhellion gan feddygon teulu gan ddefnyddio gweithgarwch diwylliannol<br>• Rhaglenni gwirfoddol mewn sefydliadau diwylliannol<br>• Gwaith atgofion / cartref gofal gan ddefnyddio gweithgarwch diwylliannol<br>• Cyfraniad diwylliannol ymarferol megis gwaith crefft fel gweithgarwch therapiwtig – fel yn y Meddwl Corff ac Ysbryd<br>• Cyfrannu at weithgarwch corfforol a pherfformio gyda manteision iechyd amlwg (e.e. dawnsio, canu)<br>• Gweithgareddau diwylliannol sy'n cyfrannu at y 'Pum cam i lesiant' (New Economics Foundation). |
| **C8 Sicrhau gwell cydlyniant cymunedol** | Cleientiaid yn nodi mwy o ymdeimlad o berthyn ac integreiddio i'r gymdeithas yn ehangach.<br><br>Grwpiau a chleientiaid lleiafrifol yn nodi eu bod yn gweld gweithgareddau mewn lleoliadau diwylliannol a threftadaeth yn berthnasol iddynt eu hunain a'u cymunedau. | Prosiectau diwylliannol â'r brif nod yw:<br>• Edrych ar amrywiaeth ddiwylliannol ai' ddathlu, gan weithio i gael gwared ar deimladau o ofn a diffyg ymddiriedaeth rhwng pobl o gefndiroedd gwahanol o ran hil, crefydd neu ddiwylliant.<br>• Dileu rhwystrau i gyfranogiad gan bobl o gefndiroedd gwahanol o ran<br>• diwylliant, hil, crefydd ac anabledd. Rhoi cymorth i fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r gymuned sefydlog yn ystod y broses integreiddio. |

**Atodiad 2: Cyd-destun a Chefndir Strategol**

1. Mae'r rhaglen Cyfuno yn cael ei diweddaru i ***Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant***.

2. Mae'r term 'Ardal Arloesi' yn cael ei ddileu'n raddol a'i newid i 'Bartneriaeth Cyfuno', gan fod y model hwn o weithio wedi cael ei sefydlu.

3. Mae MAALD wedi arwain y rhaglen Cyfuno ers 2015, gan adeiladu ar yr argymhellion a nodwyd yn adroddiad Andrews, sef *Diwylliant a Thlodi.* Yn ystod y cyfnod peilot yn 2015-17, cafodd model cyflawni arloesol – y dull Ardal Arloesi – ei sefydlu a'i ategu gan grant a rhaglen gymorth. Cyhoeddwyd adroddiad gwerthuso cynhwysfawr Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ym mis Mawrth 2016. Dangosodd yr adroddiad fod cyrff diwylliannol yn datblygu dulliau mwy cydlynol a chydweithredol o fynd i'r afael â thlodi. Mae hefyd wedi helpu i ddangos:

   - pa weithgarwch sydd fwyaf effeithiol wrth gefnogi pobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig
   - pa gefnogaeth leol a chenedlaethol sydd ei hangen i alluogi hyn
   - y lleoedd gorau i dargedu arian a chefnogaeth arall megis hyfforddiant

4. Yn 2017 lansiodd Llywodraeth Cymru raglen Grantiau her Cyfuno. I ddechrau roedd wyth corff arweiniol yn darparu rhaglen strategol dwy flynedd o hyd gan ddefnyddio diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau i gefnogi cyflogadwyedd, grymuso pobl, a blynyddoedd cynnar ac iechyd a llesiant - ar gyfer y rhai a oedd yn byw un y cymunedau mwyaf difreintiedig. Roedd y cyrff i gyd wedi penodi cydlynwyr uno lleol i greu rhaglenni a partneriaethau o ansawdd sy'n cysylltu sefydliadau gyda'i gilydd yn fwy effeithiol. Cafodd y rhaglen ei hadolygu yn 2019 a'i ymestyn am flwyddyn i 2020.

5. Mae'r sector diwylliannol mewn sefyllfa dda i gyflawni sawl un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae ein gwerthusiad yn dangos bod y sector eisoes yn gwneud cyfraniad mawr o ran y canlynol:

   - **cyflogadwyedd a sgiliau**, yn arbennig drwy sgiliau a chyrsiau achrededig, VARTE (Gwirfoddoli fel Llwybr i Gyflogaeth) a lleoliadau hyfforddiant, a rhaglenni cyfranogol pwerus sy'n cefnogi hyder ac yn grymuso
   - **iechyd a lles**, drwy gefnogi iechyd corfforol a meddyliol
   - **cefnogi'r blynyddoedd cynnar**, yn arbennig drwy raglenni llythrennedd a dysgu fel teulu

6. Mae'r rhaglen Cyfuno yn cefnogi:

   - **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Mae hyn yn creu set unigol o ddangosyddion cenedlaethol. Mae hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGCau) statudol a fydd yn cymryd lle'r Byrddau Gwasanaethau Lleol gwirfoddol ym mhob ardal awdurdod lleol. Gall BGCau fod yn fwy cyfrifol am atal tlodi yn ôl blaenoriaethau lleol ar lefel strategol
   - Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, sy'n nodi rhaglen Llywodraeth Cymru i wella economi Cymru a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod pobl Cymru yn llwyddiannus, yn ddiogel, yn iach, yn egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig ac yn gysylltiedig. Mae'r sector diwylliannol mewn sefyllfa dda i gyfrannu at sawl amcan yn *Symud Cymru Ymlaen*, gan gynnwys creu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli a helpu pobl i ddod o hyd i gyflogaeth.

7. Mae'r dystiolaeth o'r cyfnod peilot yn dangos y gall rhwydweithiau o gynrychiolwyr cymunedol a diwylliannol alluogi darpariaeth ddiwylliannol fwy cyson a chydgysylltiedig ar lefel leol sy'n

cefnogi'r rheini â'r angen mwyaf. **Byddwn yn parhau i gefnogi ac ehangu'r model hwn o weithio mewn partneriaeth yn lleol.**

8. Mater allweddol a nodwyd gan randdeiliaid yw'r amser y mae'n ei gymryd i ddatblygu ac ymgorffori gwaith partneriaeth ar lefel leol, a hefyd yr amser sydd ei angen ar gyrff i recriwtio a hyfforddi cydgysylltwyr lleol yn effeithiol. Bydd y Gronfa Her yn cael ei hyrwyddo fel grant dwy flynedd i annog cynigion arloesol o ansawdd uchel, yn amodol ar adolygiad o'r flwyddyn gyntaf a thrafodaethau cyllidebol pellach.

9. Roedd yr adolygiad yn 2019 yn cydnabod gwerth y cydlynydd fel cysylltydd rhwng y gymuned a'r cyrff diwylliannol a Threftadaeth. Disgwyliwn weld pwyslais cryf ar rôl y cydlynydd yn y cais.

10. Mae cydgysylltu partneriaethau Cyfuno yn gweithio'n fwyaf effeithiol pan fydd yn:
    - seiliedig mewn awdurdodau lleol neu mewn corff diwylliannol 'angori' â chysylltiad cryf â'r awdurdod lleol perthnasol
    - meithrin partneriaeth o ddarparwyr diwylliannol ac asiantaethau eraill
    - hwyluso a chyfeirio dull strwythuredig penodol o gefnogi blaenoriaethau lleol, sy'n caniatáu i sefydliadau gyfrannu gwasanaethau, asedau a chapasiti at raglen ehangach
    - yn hyrwyddo rhwydweithio, digwyddiadau, hyfforddiant, gwerthuso ac adrodd
    - sicrhau dull cyson o fesur perfformiad a gwerthuso

11. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhaglenni presennol a sefydliadau partner, gan gynnwys rhaglenni Cymunedau am Waith ac Esgyn sy'n cefnogi cyflogaeth a'r rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer blynyddoedd cynnar.

12. Bydd gwaith ymchwil i gefnogi'r gwaith cyffredinol o werthuso'r rhaglen yn cael ei gynnal gan y Cydgysylltydd Ymchwil yn Amgueddfa Cymru, a'i ategu gan Wasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.